**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NAFWC 2014 (Papur 6e Rhan 1)**
**Prosiect y Pierhead : y sefyllfa ddiweddaraf**

**Dyddiad:** Y tu allan i'r cyfarfod
**Enw a rhif ffôn yr awdur:** Gwen Thomas, est 8628

# Prosiect y Pierhead: y sefyllfa ddiweddaraf

*Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn*

## 1.0 Diben a chrynodeb o'r materion

1.1 Me'r papur hwn yn amlinellu'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â phrosiect y Pierhead. Yn benodol, mae'n crynhoi'r camau a gymerwyd yn ddiwedddar o ran cynllunio, y gyllideb a'r dewisiadau ar gyfer agor yr adeilad.

## 2.0 Argymhellion

2.1 Rydym yn argymell bod y Comisiwn yn nodi'r adroddiad hwn ac yn cytuno ar ddyddiad lansio, sef 1 Mawrth 2010.

## 3.0 Trafodaeth

3.1 Anfonwyd cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer adeilad y Pierhead at Gyngor Dinas Caerdydd ym mis Mawrth 2009. Anfonodd Cyngor Dinas Caerdydd nodyn ar 8 Mai 2009 yn cytuno i GANIATÂU'r Cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig ar yr amod nad oedd Cadw am alw'r cais i mewn, cyhyd ag y bo'r cynllun yn cadw at yr amodau a amlinellwyd.

3.2 Fodd bynnag, o gofio pryderon Cadw, cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ar y safle â'r swyddog cynllunio, y pensaer cadwraeth, cynrychiolydd WYG (Gwasanaethau Dylunio Proffesiynol), rheolwr y prosiect a'r rheolwr cyfleusterau er mwyn ceisio datrys y problemau mewn modd a oedd yn bodloni pawb.

3.3 Yr hyn a oedd yn peri'r pryder mwyaf i'r Swyddog Cynllunio oedd yr effaith y byddai'r hysbysfwrdd electronig yn ei gael ar Oriel y Dyfodol a ffabrig yr adeilad. **Mae hyn wedi'i ddileu o'r cais fel nodwedd barhaol**. Rydym o'r farn y bydd cael gwared ar yr hysbysfwrdd electronig fel nodwedd barhaol yn Oriel y Dyfodol yn ein cynorthwyo ag amseriad y cais. Bydd modd gosod yr hysbysfwrdd dros dro a rhoddodd uwch swyddog atebol y prosiect gyfarwyddyd i'r perwyl hwn ar 18 Mehefin. Hysbyswyd bwrdd y prosiect ar unwaith a chafwyd eu cefnogaeth lawn.

3.4 Yn ddamcaniaethol, gall y cais am wybodaeth fynd ymlaen ac ymlaen nes bod Cadw yn fodlon â'r wybodaeth a roddir. Gall Cadw alw'r cais i mewn, a fyddai'n golygu mai Cadw yn hytrach na Chaerdydd fyddai'n gyfrifol am roi caniatâd. Pe bai hyn yn digwydd, gallem ddisgwyl misoedd o oedi.

3.5 Gall oedi arwain at broblemau yng nghyswllt y canlynol:

- yr amserlen: disgwylir y bydd y gwaith adeiladu'n parhau am 90 diwrnod ar ôl dyfarnu'r contract, a dim ond ar ôl cael y caniatâd y bydd yn dechrau. Mae angen monitro dyddiad yr agoriad a dyddiad lansio'r rhaglen yn ofalus;

- y cynllun: y posibilrwydd o orfod ailystyried elfennau craidd y cynllun; a

- y gost: cynnydd posibl yn ffioedd ymgynghorwyr a chontractwyr.

**Camau i'w cymryd**

3.6 Diwedd mis Hydref 2009 oedd y dyddiad gwreiddiol ar gyfer lansio'r Pierhead. Hyd yma, mae'r oedi yn y broses caniatâd cynllunio wedi ychwanegu pedair wythnos at amserlen y gwaith, ac mae'n bosibl y caiff pedair wythnos arall eu hychwanegu erbyn cyrraedd terfyn amser Cadw. Mae'r oedi hwn yn golygu na fydd modd cwblhau'r gwaith erbyn mis Hydref.

3.7 Ystyriodd rheolwr y prosiect ac aelodau tîm y prosiect dri dyddiad posibl arall ar gyfer y lansiad: diwedd tymor y Nadolig 2009, Ionawr 2010 neu 1 Mawrth 2010. Yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf, argymhellodd y grŵp llywio ddyddiad lansio newydd, sef 1 Mawrth 2010, yn amodol ar gymeradwyaeth Bwrdd y Prosiect, gan ofyn i'r Comisiwn gymeradwyo'r argymhelliad hwn. Mae'r dyddiad newydd yn caniatáu'r amser ychwanegol y mae ei angen i gwblhau'r prosiect oherwydd yr oedi yn y gwaith o brosesu'n cais cynllunio, ac yn rhoi digon o amser comisiynu i ni ar gyfer cynllun sy'n un uchelgeisiol. Bydd hefyd yn ganolbwynt i weithgareddau Dydd Gŵyl Dewi'r Cynulliad fel rhan o'i raglen 10 mlynedd.

3.8 Rydym yn disgwyl penderfyniad gan Cadw yn ystod y mis nesaf a byddwn yn rhoi gwybod i'r Comisiynwyr cyn gynted ag y daw i law. Mae cyfarfodydd â'r timau cynllunio a'r contractwyr yn parhau yn y cyfamser. Byddwn yn parhau i brofi'r gyllideb yn erbyn y cynllun ac i'r gwrthwyneb, gan weithio o fewn y gyllideb a gadarnhawyd, sef £1.26 miliwn.

3.9 Bydd cynllun rheoli gweithredol yn barod ar ffurf drafft ym mis Medi 2009.

**NAFWC 2014 (Papur 6e Rhan 1)**
**Prosiect y Pierhead: y sefyllfa ddiweddaraf**

**ATODIAD 1**

**CRYNODEB O'R DYDDIADAU ALLWEDDOL**

| **Dyddiad** | **Camau i'w cymryd / Gwybodaeth** |
|---|---|
| 2 Mawrth | Cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig i Gyngor Dinas Caerdydd |
| 13 Mawrth | Y cais wedi'i gofrestru yng Nghyngor Dinas Caerdydd |
| 30 Ebrill | Cyngor Dinas Caerdydd yn gofyn am estyniad i'r dyddiad cau i gyflwyno adroddiad i Cadw i 14 Gorffennaf |
| 1 Mai | Cysylltiadau cychwynnol â Chyngor Dinas Caerdydd yn awgrymu nad oedd unrhyw faterion dadleuol |
| 8 Mai | Cyngor Dinas Caerdydd yn cyhoeddi adroddiad yn argymell caniatáu Cais Adeilad Rhestredig gydag amodau, nad oeddynt yn ddadleuol, yn ymwneud â chynnwys rhagor o fanylion. |
| 9 Mehefin | Cadw yn ymweld â'r safle gyda Swyddog Cynllunio Cyngor Dinas Caerdydd a chynrychiolydd WYG ac yn gofyn am ragor o fanylion am rai materion. |
| 16 Mehefin | Cyfarfod ar y safle gyda Swyddog Cynllunio Cyngor Dinas Caerdydd, Pensaer Cadwraeth a chynrychiolydd WYG a swyddogion y Cynulliad. Lleisiwyd pryder am rai agweddau a gofynnwyd am ragor o fanylion (roedd llawer o'r wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i chynnwys yn y cais gwreiddiol). Y pryderon hyn yn cael effaith ddifrifol ar yr amserlen a'r cynllun. |
| 18 Mehefin | Yr Uwch Reolwr Atebol yn rhoi cyfarwyddyd i ddileu'r hysbysfwrdd electronig o'r cynllun. |
| 19 Mehefin | Gwybodaeth ychwanegol yn cael ei hanfon at Gyngor Dinas Caerdydd |
| 23 Mehefin | Anfon e-bost at y Swyddog Cynllunio yn holi am yr amserlen arfaethedig ac i sicrhau bod y wybodaeth wedi cyrraedd. Dim ymateb. |
| 1 Gorffennaf | Y Swyddog Cynllunio heb edrych ar y wybodaeth ond yn gobeithio'i hanfon at Cadw ar 3 Gorffennaf. |
| 2 Gorffennaf | Anfon e-bost at y Swyddog Cynllunio yn holi am hynt y cais. |
| 2 Gorffennaf | Y Swyddog Cynllunio (Cyngor Dinas Caerdydd) yn anfon y wybodaeth ychwanegol at Cadw |
| | |
| **DYDDIADAU I'W NODI** | |
| Ymateb CADW | 28 diwrnod |